Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Enw'r gwasanaeth:Elmhurst Orthodontics

# Dyddiad y gweithgarwch: 9 Mehefin 2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Gorffennaf 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

978-1-80364-586-5

© Hawlfraint y Goron 2020

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Elmhurst Orthodontics fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn glinig orthodontig ym Mangor, Gogledd Cymru.
Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 9/6/2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae’r gwasanaeth wedi ymateb i’r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae’r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli’r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i’r cleifion, y staff a’r ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Ar ôl adolygu'r ddogfen uchod, roedd yn amlwg bod yr asesiad risg wedi'i gwblhau'n gywir.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y newidiadau a wnaed i'r practis er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd hyn yn cynnwys lleihau nifer y seddi yn y man aros a gofyn i warcheidwaid aros y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth, oni bai fod eu hangen y tu mewn i gael cydsyniad, ac felly i gyfyngu ar nifer y bobl sy'n bresennol ym mhob ystafell.

Fe'n hysbyswyd y cynghorir pob claf i beidio â dod yn gynnar ar gyfer apwyntiadau ac anfonir holiadur iechyd cleifion at y cleifion trwy neges destun cyn yr apwyntiad. Mae hyn wedi helpu i leihau'r amser y mae’r cleifion yn ei dreulio yn y mannau cymunol ac mae system intercom hefyd wedi’i gosod i helpu i reoli llif y cleifion drwy’r practis. Ar ôl cyrraedd y practis, mae’r staff yn defnyddio'r system intercom i wirio nad yw’r cleifion yn dangos unrhyw symptomau COVID-19 cyn iddynt gael mynediad i'r practis.

Dywedodd y staff wrthym hefyd fod negeseuon testun yn cael eu hanfon at bob claf neu eu gwarcheidwaid cyn eu hapwyntiad, gan roi’r holl wybodaeth berthnasol am COVID-19 iddynt. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar wisgo masgiau a defnyddio'r gorsafoedd glanweithdra dwylo yn y practis.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod dwy nyrs ddeintyddol a derbynnydd yn y practis yn siarad Cymraeg, a bod yr holl wybodaeth am y cleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd y practis hefyd yn arfer cael neges peiriant ateb ddwyieithog, ond fe’n hysbyswyd, ers COVID-19, bod y neges wedi’i gwneud yn hirach i gwmpasu gwybodaeth COVID-19, felly nid oedd lle i gyfieithiad Cymraeg.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i’w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiad er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Amserlenni glanhau'r practis ar gyfer yr wythnos ddiwethaf
- Copi o'r polisi glanhau
- Copi o'r archwiliad dihalogi diweddaraf yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Copïau o'r cofnodion dyddiol o wiriadau ar gyfer pob awtoclaf (ar gyfer y pythefnos diwethaf)

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddwyd dogfennau amrywiol inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisi glanhau. Gwelsom hefyd gopi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a gwblhawyd. Roedd y rhain i gyd yn drylwyr ac wedi'u cwblhau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym hefyd fod hyfforddiant cyfarpar diogelu personol, sef gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol[1], wedi'i gyflwyno i'r holl staff.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol ac yr ymgymerir â gwiriadau stoc bob wythnos gan nyrs ddynodedig. Unwaith y bydd lefelau stoc yn cyrraedd pwynt penodol, bydd y nyrs yn hysbysu rheolwr y practis, a fydd yn archebu'r stoc sydd ei hangen.

Mae gan y staff hefyd fynediad at borth ar-lein sy'n rhoi'r holl ddiweddariadau COVID-19 perthnasol iddynt.

Esboniodd y staff y cysylltir â'r cleifion, neu eu gwarcheidwaid, drwy neges destun cyn eu hapwyntiad a gofynnir cyfres o gwestiynau i benderfynu a ydynt mewn perygl o drosglwyddo'r feirws. Gofynnwyd i'r cleifion a oedd yn arddangos symptomau COVID-19 neu a oedd yn aros am ganlyniad prawf COVID-19 aros gartref a pheidio â mynychu'r practis.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[1] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion
- Copi o'r adroddiad Rheoliad 23 (unigolyn cyfrifol) diweddaraf, neu, lle'r unigolyn cyfrifol yw'r rheolwr cofrestredig hefyd, copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf wedi ei baratoi o dan Reoliad 16(3)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisi/gweithdrefn cydsyniad gwybodus
- Copi o bolisi diweddaraf COVID-19
- Cynllun parhad busnes ar gyfer y practis
- Cofnod o'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddi a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi diweddaru eu hyfforddiant gorfodol ac yn cydymffurfio ag ef. Mae gan bob aelod o staff fynediad at academi hyfforddiant ar-lein ar gyfer e-ddysgu[2] ac mae gan bob un ei borth unigol ei hun. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod cynlluniau i gynnal archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)[3] yn y practis yn fuan. Rydym wedi gofyn am gopi o'r archwiliad gorffenedig yn ystod yr wythnosau nesaf i'w adolygu. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad radiograffeg a gwblhawyd eleni.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Mae unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu cyflwyno i'r staff trwy grŵp WhatsApp yr holl staff.

[2] Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, yn nodweddiadol ar y rhyngrwyd.

[3] Proses annibynnol a dogfennol ar gyfer cael tystiolaeth.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae aelod o staff penodedig yn cwblhau rhestr wirio wythnosol i gadarnhau bod yr ocsigen yn llawn, bod y diffibriliwr wedi'i wefru'n llawn, a bod yr holl gyffuriau yn gyfredol, sydd yn unol â safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal bob dydd, er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[4] a'r daflen wybodaeth i gleifion[5], a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y

[4] Ystyr "datganiad o ddiben" ("statement of purpose") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.
[5] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.

sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.